**Atodiad 1**

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Gyngor Sir Ddinbych**
**Neuadd y Sir**
**Ffordd Wynnstay**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 1YN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Sir Ddinbych

Awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yw Cyngor Sir Ddinbych, sydd â chyfanswm poblogaeth o 94,805. Mae'r sir yn ymestyn o gyrchfannau arfordirol Y Rhyl a Phrestatyn trwy drefi hanesyddol Llanelwy, Dinbych a Rhuthun a Bryniau Clwyd, i Ddyffryn Dyfrdwy a threfi Llangollen a Chorwen. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal wyth ysgol uwchradd, 47 ysgol gynradd, dwy ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion.

Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf yn Chwefror 2012. Penodwyd y prif weithredwr ym mis Ebrill 2009 ac mae'r pennaeth addysg a gwasanaethau plant wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2010. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei swydd er mis Tachwedd 2007 ac mae'r prif ddeiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2017.

Mae Sir Ddinbych yn un o chwe awdurdod lleol yng nghonsortiwm rhanbarthol GwE ar gyfer gwella ysgolion.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth arfarnu deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Ystyrir y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych wedi'i nodi isod:

- dros gyfartaledd tair blynedd, mae 18.7% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru (18.3%)
- mae 20.3% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 16.3%
- mae 5.7% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 10.6%
- mae gan 24.3% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- mae 84 o blant ym mhob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 95 o blant ym mhob 10,000

## Crynodeb

Dros gyfnod, mae uwch arweinyddiaeth gref iawn yn yr awdurdod lleol wedi sicrhau ffocws penderfynol ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi dangos yr hyder i uno'r gwasanaeth addysg a'r gwasanaeth plant yn ddiweddar yn un adran golegol i gyflwyno gwasanaeth integredig cydlynus ac effeithlon. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, ac effaith fuddiol ar les dysgwyr.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn Sir Ddinbych yn perfformio'n gyson dda. Er bod perfformiad ar draws yr ysgolion uwchradd wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf, mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 o ran bron bob un o'r dangosyddion allweddol yn cymharu'n dda dros gyfnod â'r rheiny mewn awdurdodau tebyg ledled Cymru, a gyda deilliannau cenedlaethol.

Mae'r awdurdod yn rhoi pwys mawr ar lais y dysgwr, gan sicrhau bod llawer o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfleoedd pwrpasol i rannu eu barn, eu pryderon a'u syniadau ar gyfer gwella. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i gael cyfryngau cyfathrebu clir ar gyfer gwella gwasanaethau a darpariaeth yr awdurdod.

Mae'r awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn ac mae'n eu cefnogi a'u herio'n effeithiol. At ei gilydd, mae ganddo ystod o ddarpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, ac mae'r rhain yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Deilliannau** | **Da** |
| **Ansawdd gwasanaethau addysg** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Lleihau’r amrywioldeb mewn deilliannau mewn ysgolion uwchradd

A2 Sicrhau bod arfarnu gwasanaethau yn canolbwyntio’n glir ar fesur y deilliannau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni trwy’r gwasanaethau hynny

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad. Bydd arolygwyr Estyn yn monitro cynnydd yr awdurdod lleol yn erbyn yr argymhellion hyn yn ystod eu hymweliadau cyswllt.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn ar y modd y mae’r awdurdod wedi cyfuno’r gwasanaethau addysg a phlant yn effeithiol, ac effaith ddilynol hyn ar ddarpariaeth a deilliannau.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau:  Da

Yn Sir Ddinbych, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu haddysg statudol.  Mae gan awdurdod lleol Sir Ddinbych ffocws cyson ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'n dda.  Nodwedd nodedig yw bod deilliannau yn Sir Ddinbych yn gryf ar draws bron pob un o'r dangosyddion allweddol dros sawl blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.  At ei gilydd, mae deilliannau'n cymharu'n dda â deilliannau mewn awdurdodau tebyg ledled Cymru, a gyda deilliannau cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau, ac mae nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi gostwng yn dda dros gyfnod.  Er gwaethaf perfformiad cyson gryf ar y cyfan, mae perfformiad ysgolion uwchradd unigol wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf.  Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr ysgolion yn Sir Ddinbych y barnwyd eu bod o leiaf yn dda ar gyfer safonau mewn arolygiadau Estyn yn debyg i ganlyniadau arolygiadau yn genedlaethol.  Nid oes unrhyw ysgol gynradd nac uwchradd yn yr awdurdod wedi cael barn anfoddhaol am safonau dros yr un cyfnod, ond nid yw'r naill na'r llall wedi cael barn ragorol chwaith.

Mae safonau disgyblion mewn Cymraeg mamiaith yn parhau'n gryf dros eu cyfnod yn yr ysgol.

At ei gilydd, mae dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn perfformio yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer eu cyfoedion ledled Cymru, yn yr un modd â dysgwyr mwy abl.

Mae plant a phobl ifanc wedi cyfrannu at nodi blaenoriaethau strategol yn yr awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf.  Er enghraifft, trwy eu haelodaeth o'r Fforwm Cyngor Ysgolion, y Fforwm Ieuenctid a'r Fforwm Llysgenhadon Ifanc, gwnaeth llawer o bobl ifanc gyfraniad gwerthfawr at ymgynghoriad yr awdurdod lleol ar ei bolisi cludiant a chefnogodd waith cynllunio'r awdurdod o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Enghraifft nodedig arall yw'r ffordd y mae disgyblion ysgolion uwchradd yn trafod arfer dda a meysydd i'w gwella o ran y modd y mae eu hysgolion yn hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol yn eu cyfarfodydd cyngor ysgol rheolaidd ledled y sir.  Yn ddiweddar, datblygodd aelodau o'r Cyngor Ieuenctid arolwg cynhwysfawr ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd ar draws yr awdurdod ar ansawdd a defnyddioldeb gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Maent yn rhannu'r canfyddiadau ag uwch swyddogion perthnasol a Grŵp Iechyd a Lles yr awdurdod.

Enghraifft hynod gryf arall o'r modd y mae plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yw'r ffordd y mae plant sy'n derbyn gofal yn mynd ati i rannu eu barn ar agweddau ar waith yr awdurdod yn y 'Clwb KIC (plant mewn gofal)' bob hanner tymor.  Maent yn rhannu syniadau creadigol ac arloesol ar sut gall yr awdurdod wella gwasanaethau a chymorth ar eu cyfer.  Mae hyn wedi helpu hyrwyddo newidiadau buddiol i weithdrefnau adolygu statudol, gan sicrhau effaith gadarnhaol ar eu hyder yn y system gofal ac addysg.

Mae lefelau cyfranogiad disgyblion yn uchel ar draws y gweithgareddau a'r ymyriadau cyfoethogi, chwaraeon a lles niferus a gynigir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Er enghraifft, mae nifer fawr o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol buddiol trwy fentrau 5x60 a Champau'r Ddraig. Mae cyfran uchel o bobl ifanc sy'n manteisio ar y gwasanaeth ieuenctid yn ennill dyfarniadau gwerthfawr ffurfiol a rhai nad ydynt yn ffurfiol, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, chwaraeon a hamdden, iechyd a lles a dyfarniadau cymunedol.

Mae canlyniadau arolygiadau ysgolion ar gyfer lles dros y tair blynedd ddiwethaf yn gryfach na chyfartaledd Cymru ar y cyfan. At ei gilydd, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwella. Fodd bynnag, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn gymharol wan. Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn dda iawn. Mae canran y disgyblion oedran ysgol gynradd ac uwchradd sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng dros gyfnod. Mae'r ganran hon bellach ychydig islaw cyfartaledd Cymru mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych, ond mae'n parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd.

Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o'r ysgol am bum niwrnod neu lai wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi amrywio, ond roedd yn is na chyfartaledd Cymru yn y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer. Ychydig iawn o waharddiadau parhaol a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

**Ansawdd gwasanaethau addysg: Da**

Mae gan yr awdurdod ddiben moesol cryf sy'n sail i'w wasanaethau addysg, gan ganolbwyntio ar uchelgais i wneud y gorau o gyfleoedd bywyd pob dysgwr. Mae'r awdurdod wedi sefydlu cyd-drefniant gweithio sydd wedi'i integreiddio'n dda rhwng ei wasanaethau addysg a phlant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y cyngor ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn. Mae'n casglu ac yn dadansoddi ystod eang o wybodaeth am ysgolion, gan gynnwys data am gynnydd disgyblion, cyllid ysgolion a diogelu, er enghraifft. Cefnogir y gwaith hwn gan offeryn defnyddiol 'adolygu rheolaeth ysgolion' ar gyfer ysgolion sy'n annog dull cyson o hunanarfarnu ar draws ei ysgolion. Mae'r awdurdod yn sicrhau ansawdd y wybodaeth gan ysgolion ac yn ei defnyddio'n dda i herio a chynorthwyo ysgolion i fodloni gofynion statudol amrywiol a mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.

Mae gan yr awdurdod bolisïau, strategaethau a phrosesau clir iawn sy'n darparu sylfaen gref ar gyfer gwaith gwella ysgolion. Caiff rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'i gonsortiwm gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) eu diffinio'n glir a'u deall yn dda gan swyddogion yr awdurdod, staff y consortiwm ac arweinwyr ysgol.

Trwy uwch swyddogion, aelodau etholedig a staff GwE, caiff ysgolion yn Sir Ddinbych eu herio'n drylwyr ynglŷn â'u perfformiad, gan gynnwys y deilliannau ar gyfer disgyblion, ansawdd yr addysgu, y gofal y maent yn ei ddarparu, ac ansawdd yr arweinyddiaeth. Yn aml, caiff ysgolion eu cefnogi'n dda ac yn gymesur â'u hanghenion yn dilyn categoreiddio ysgolion yn briodol.

Mae ysgolion y nodwyd eu bod yn destun pryder yn cael cymorth sylweddol, ac ymyrraeth, pan fydd angen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn gwella ar gyflymdra priodol o ganlyniad. Mae'r awdurdod lleol fel arfer yn mynd i'r afael ag arweinyddiaeth wan mewn ysgolion mewn ffordd amserol ac urddasol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n llwyddo i wneud hyn yn effeithiol heb ddefnyddio'i bwerau ymyrraeth ffurfiol.

Caiff ysgolion eu cefnogi'n dda mewn agweddau ar flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac o ran paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Gall darpar uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac uwch arweinwyr ac arweinwyr canol presennol, elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd da i ddatblygu eu medrau arwain. Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol ar gyfer llywodraethwyr sy'n eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Mae ysgolion yr awdurdod yn cydweithio'n dda trwy glystyrau o ysgolion cynradd a'u hysgolion uwchradd partner, sy'n eu helpu i rannu arfer dda yn rheolaidd a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Er enghraifft, mae pob clwstwr wedi mynd ati'n llwyddiannus i ddynodi arweinydd i ddarparu arweiniad ar ddatblygiadau cenedlaethol, fel rhoi safonau proffesiynol newydd ar waith ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

At ei gilydd, mae gan yr awdurdod ystod addas o ddarpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, sy'n effeithiol ar y cyfan o ran bodloni eu hanghenion. Mae'r awdurdod wedi integreiddio'i wasanaethau addysg a phlant yn llwyddiannus i greu'r hyn y mae'n ei alw'n 'wasanaeth cyfunol'. Mae'r dull hwn yn galluogi swyddogion i weithio ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth a chyrchu gwybodaeth yn effeithlon. O ganlyniad, mae swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o anghenion disgyblion ac yn cynllunio ymyriadau perthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi arfarnu nifer o wasanaethau allweddol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r ffordd y mae'n ariannu ysgolion ac ad-drefnu meysydd gwasanaeth. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod i gefnogi ysgolion a disgyblion yn fwy effeithiol mewn meysydd fel anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith ac anghenion ymddygiadol. Mae'r drefn o ddarparu cyngor arbenigol i ysgolion trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gwella hefyd. Mae'r awdurdod wedi nodi bod angen datblygu darpariaeth ymhellach ar gyfer disgyblion Cymraeg eu hiaith, ac adolygu darpariaeth sy'n seiliedig ar adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran cynllunio'r rhain.

Mae'r awdurdod yn gosod disgwyliadau clir o'r holl ysgolion a rhieni o ran presenoldeb disgyblion. Mae'r awdurdod yn ymateb yn briodol i bryderon ynglŷn â phresenoldeb, a phan fydd angen, mae wedi cynnal adolygiadau manwl o ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o'r ysgol am bum niwrnod neu lai wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ddwywaith cyfradd y rhanbarth, a chryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r

awdurdod yn herio ysgolion sydd â chyfraddau gwaharddiadau uwch yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn dadansoddi'n systematig p'un a oes anghenion dysgu ychwanegol gan ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd, ac ni all fod yn hyderus fod ysgolion yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni'n ddigon da.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi ad-drefnu ei wasanaeth cymorth ymddygiad ac mae'n datblygu gallu ysgolion i ddeall anghenion disgyblion yn well. Er enghraifft, trwy'r broses symudiadau rheoledig, mae disgyblion sydd angen dechrau newydd mewn ysgolion newydd yn cael eu cynorthwyo'n dda. Mae gwasanaeth yr awdurdod ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain wedi helpu cyfrannu at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn yr awdurdod nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).

Darperir gwasanaethau cwnsela buddiol gan yr awdurdod sy'n aml yn effeithiol iawn o ran lleihau gofid seicolegol ymhlith pobl ifanc. Yn ychwanegol, mae gan yr awdurdod lleol bartneriaeth hirsefydledig â'r gwasanaethau iechyd meddwl lleol plant a'r glasoed. Mae'r bartneriaeth hon wedi bod yn effeithiol o ran pennu llwybr clinigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o hunan-niweidio.

Mae'r awdurdod yn canolbwyntio'n briodol ar wella'r cyfnod trosglwyddo i'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae swyddogion ar draws meysydd gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol iawn i nodi gofynion cymorth disgyblion. Maent yn sicrhau bod gan ysgolion adnoddau priodol ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn dda.

Mae'r awdurdod wedi rhoi gweithdrefnau priodol ar waith i fonitro darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r sir ac mewn darpariaeth yn seiliedig ar adnoddau yn yr awdurdod. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau ar ddarpariaeth y tu allan i'r sir yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae'r awdurdod yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith. Mae staff yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr mewn ysgolion ac yn rhoi cymorth gwerthfawr iddynt mewn cynllunio gwersi, datblygu deunyddiau a hyfforddiant. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn cynorthwyo ysgolion yn dda i ymgysylltu â rhieni.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth gadarn iawn o raddau addysg ddewisol yn y cartref yn y sir. Mae ganddo system olrhain sefydledig, ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda phobl broffesiynol eraill i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol ar y cyfan. Mae swyddogion wedi datblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda theuluoedd ac maent yn rhoi cymorth a chyngor addas iddynt. Pan fo'n briodol, mae swyddogion yn cynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i ddarpariaeth prif ffrwd. Mae'r agwedd hon ar waith yr awdurdod yn gryfder arbennig.

Dros flynyddoedd lawer, mae'r awdurdod wedi helpu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni o awtistiaeth, gan gynnwys, er enghraifft, sut mae'n effeithio ar eu plentyn a sut

gallant roi strategaethau ymarferol ar waith i helpu lleihau gorbryder. Yn ychwanegol, mae'r holl staff addysgu a staff cymorth mewn tua hanner ysgolion Sir Ddinbych wedi manteisio ar hyfforddiant ar-lein yn y rhaglen genedlaethol 'dysgu ag awtistiaeth'. Mae hyn yn helpu cydlynwyr anghenion addysgol arbennig yr ysgolion i fod yn fwy hyderus a hyfedr mewn defnyddio ac addasu deunyddiau a dulliau addysgu i fodloni anghenion disgyblion yn well. Mae'r awdurdod yn gweithio i wella darpariaeth ymhellach ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth ac mae ganddo gynlluniau cadarn sydd megis dechrau cael eu gweithredu.

Mae gan yr awdurdod bolisïau clir a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu sy'n bodloni'r gofynion.

Mae swyddogion yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau eu bod yn nodi'n gyflym y plant sydd islaw oedran ysgol statudol sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r 'Porth Cymorth i Blant a Theuluoedd' yn helpu sicrhau bod staff yn darparu cymorth penodol ar gyfer plant a theuluoedd unigol o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael. Er enghraifft, mae gweithwyr cyswllt teuluol yn rhoi rhaglenni ar waith ar gyfer rhieni sy'n helpu gwella medrau iaith plant ifanc. Mae gan yr awdurdod ddull priodol o gefnogi lleoliadau sy'n darparu addysg ar gyfer plant tair a phedair oed, gan gynnwys cymorth gan athrawon y cyfnod sylfaen gan ysgolion ac athrawon ymgynghorol. O ganlyniad, mae darpariaeth ym mwyafrif y lleoliadau yn dda.

Nodwedd gref iawn o waith yr awdurdod yw'r ffordd y mae'n ymgynghori â phlant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac wrth arfarnu'r ystod eang o wasanaethau y mae'n eu cynnig. Er enghraifft, ar ôl ystyried barn plant a phobl ifanc, mae newidiadau i fwydlenni cinio ysgol wedi cyfrannu at gynnydd nodedig yn nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n dewis defnyddio gwasanaethau arlwyo ysgolion. Yn ystod cyfnod cynllunio adeiladu ysgol newydd, ymwelodd disgyblion ag ysgolion y tu allan i'r sir i weld y cyfleusterau oedd ar gael. Wedyn, fe wnaethant fynychu sesiynau ymgynghori i helpu rhieni ac aelodau o'r gymuned i ddeall manteision cynigion ad-drefnu ysgolion, yn ogystal â ffurfio datblygiad eu hysgol newydd. Mae swyddogion ac aelodau etholedig yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd a defnyddiol gyda phobl ifanc er mwyn gofyn am eu barn, er enghraifft trwy'r Fforwm Ieuenctid.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 yr awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynlluniau'r awdurdod ar gyfer cynyddu canran y dysgwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn briodol uchelgeisiol, yn unol â'r targedau i gynyddu canran y pynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion sy'n addysgu llai na 50% ar hyn o bryd. Mae digon o leoedd ym mhob sector ar gyfer dysgwyr sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod dda o gyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion dros 16 oed. Mae dysgwyr yn elwa ar addysg academaidd a galwedigaethol trwy ysgolion a phartneriaethau cydweithredol rhwng ysgolion, colegau lleol fel Coleg Cambria a Choleg Llandrillo, a darparwyr hyfforddiant. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gael gwybod am wahanol yrfaoedd, er enghraifft trwy'r rhaglen 'yn barod ar gyfer gwaith', sy'n galluogi disgyblion i ddysgu am fusnesau a diwydiannau lleol a'r cyfleoedd cyflogaeth y maent yn eu cynnig yn yr ardal.

Darperir gwasanaethau ieuenctid o ansawdd da gan yr awdurdod sy'n bodloni anghenion ystod eang o bobl ifanc. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau buddiol, fel Gwobr Dug Caeredin. Mae swyddogion cymorth ieuenctid yn cynllunio rhaglenni pwrpasol i gefnogi grwpiau penodol o bobl ifanc yn dda, fel gweithgareddau chwaraeon ar gyfer pobl ifanc anabl yn ystod gwyliau ysgol. Yn ychwanegol, mae mentrau diwylliannol fel prosiect 'Arts Together' yn cynyddu cyfleoedd i ymgysylltu â theuluoedd bregus. Mae swyddogion yn adolygu'r gwasanaethau a gynigir yn rheolaidd i sicrhau eu bod o ddiddordeb i bobl ifanc.

Mae swyddogion ac aelodau etholedig yn rhoi rhaglen moderneiddio addysg yr awdurdod ar waith yn llwyddiannus. Maent yn ymgynghori'n dda â chymunedau lleol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall diben a gwerth cynigion ad-drefnu ysgolion yr awdurdod. Mae'r cynlluniau hyn, a threfniadau trylwyr yr awdurdod ar gyfer cynnal adeiladau, wedi gwella ystâd a chyfleusterau ysgolion, gan gynnwys ardaloedd chwaraeon a chwarae. Yn ychwanegol, mae cynlluniau'r awdurdod ar gyfer ad-drefnu ysgolion wedi lleihau nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd. Mae swyddogion yn cynllunio'n dda i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth wleidyddol a strategol yr awdurdod yn hynod effeithiol. Mae gan arweinydd y cyngor a'r prif weithredwr weledigaeth glir ac uchelgeisiol iawn ar gyfer deilliannau i blant a phobl ifanc a gwasanaethau addysg. Caiff y weledigaeth hon ei deall yn dda gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Mae wedi cael ei rhannu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid.

Mae'r gred fod 'pob plentyn wir yn bwysig' yn treiddio trwy waith yr awdurdod, ac mae arweinwyr, swyddogion a staff yn dangos yn gyson synnwyr dilys o ddiben moesol y dylai pob dysgwr gyflawni ei botensial. Mae hyn wedi cyfrannu at y ffaith fod yr awdurdod yn cynnal deilliannau da ar gyfer plant a phobl ifanc dros sawl blwyddyn ar draws bron pob un o'r dangosyddion allweddol, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc.

Mae uwch arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, yn arwain timau'n effeithiol ac yn cydweithio'n dda i yrru blaenoriaethau strategol, yr eir i'r afael â nhw yn uniongyrchol trwy gynlluniau strategol cydlynus a chlir.

Mae cynllun corfforaethol newydd 2017-2022 yn dangos ymrwymiad clir y cyngor i wella addysg, ac un o'i bum prif amcan yw datblygu Sir Ddinbych yn 'rhywle y bydd pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chael y medrau i wneud hynny'. Mae'n gynllun tra ystyriol, a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i safbwyntiau trigolion a rhanddeiliaid eraill, ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol yn dda. Mae'r cynllun yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o ran y ffordd y mae'n anelu at feithrin gwydnwch ymhlith ei gymunedau a'i drigolion. Mae'r cynllun gwasanaeth addysg a phlant yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol berthnasol, gan gynnwys darparu cymorth ar gyfer dysgwyr bregus a sicrhau bod pob dysgwr yn ennill y wybodaeth a'r medrau cywir er mwyn cyflawni eu potensial.

Mae gan bob blaenoriaeth ddangosyddion cynnydd perthnasol a diffiniedig a chamau mesuradwy ar gyfer gwella. Mae ganddynt raddfeydd amser penodol, realistig, ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol ar gyfer eu cyflawni. O ganlyniad, mae arweinwyr a thimau yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni.

Mae dulliau'r awdurdod o reoli newid cymhleth yn effeithiol iawn. Mae'r prif weithredwr wedi cynnal adolygiad strategol lefel uchel o'r gwasanaeth addysg, sydd wedi arwain at ailstrwythuro'r gwasanaethau addysg a phlant i greu un gwasanaeth 'cyfunol' cydlynus. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol yn llawer mwy cydgysylltiedig o ran y ffordd y mae'n cyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc. Mae'r gwasanaeth cyfunol wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth sydd ar gael i gynorthwyo plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi cyfrannu at ddealltwriaeth dda'r awdurdod o anghenion teuluoedd a dysgwyr, sy'n eu helpu i ymateb yn gyflym i'w hanghenion, gan roi ymyrraeth a chymorth ar waith yn gynnar.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant yn arweinydd hynod effeithiol ac eithriadol o dda. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gydag uwch arweinwyr eraill i gyflwyno'r cynllun gwasanaeth addysg ac mae'n ymdrechu'n ddygn i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gwasanaethau addysg sydd eu hangen arnynt er mwyn llwyddo. Mae'n sicrhau bod llinellau cyfathrebu clir o fewn timau a gyda'r cyhoedd, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth, sy'n helpu sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n dda.

Mae gan yr awdurdod brosesau defnyddiol a sefydledig ar gyfer arfarnu ansawdd ei wasanaethau. Er enghraifft, mae digwyddiadau herio perfformiad gwasanaeth gan aelodau etholedig allweddol ac uwch swyddogion yn darparu fforwm effeithiol ar gyfer adolygu cynnydd a dwyn swyddogion i gyfrif. Defnyddir digwyddiadau herio timau yn briodol hefyd i herio swyddogion a thimau o fewn gwasanaethau ar y blaenoriaethau a'r targedau yn eu cynlluniau gweithredol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr a swyddogion yn arfarnu darpariaeth yr awdurdod lleol yn drylwyr. Fodd bynnag, caiff arfarniadau o effaith ychydig iawn o wasanaethau mewnol a rhai a gomisiynwyd eu cyfyngu gan ddull anghyson o osod deilliannau clir a mesuradwy, ac nid ydynt yn arfarnu'r deilliannau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni trwy'r gwasanaethau hynny yn gyson.

Mae gan aelodau etholedig ac uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o faterion addysg ar draws yr awdurdod ac maent yn herio swyddogion yn drylwyr i ysgogi gwelliant. Maent yn herio a chefnogi datblygiad polisi'n dda, er enghraifft trwy wneud penderfyniadau anodd wrth ddiwygio'r polisi cludiant ysgolion.

Yn gyffredinol, gwnânt ddefnydd effeithiol o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir a chymryd camau adferol priodol, fel ceisio cadarnhau'r ddarpariaeth a ddarperir gan GwE yn rheolaidd.

Ar draws yr awdurdod, mae bron pob un o'r swyddogion yn dangos ymrwymiad cryf i'w dysgu proffesiynol eu hunain, gan ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau yn rheolaidd. Gwnânt hyn o fewn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain trwy ystod o weithgareddau tra ystyriol a phwrpasol. Mae'r awdurdod yn cynnig dysgu ar-lein

defnyddiol trwy lwyfan e-ddysgu hefyd.  Mae hyn yn galluogi ymagwedd hyblyg at ddysgu targedig a phwrpasol ar draws amrywiaeth o destunau.  Mae'r gwasanaeth cyfunol a'r heriau gwasanaeth yn arwain at gydweithio cryfach.  Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn nodi anghenion dysgu proffesiynol addas trwy brosesau gwerthuso perfformiad rheolaidd.

Mae staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ystod o rwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol.  Maent yn rhannu eu harfer dda eu hunain yn y fforymau hyn, er enghraifft wrth amlinellu'r modd y gwnaethant wynebu'r her i ddod â dau faes gwasanaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant at ei gilydd.  Mae'r gweithgareddau hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn yr awdurdod, ac yn annog swyddogion i arfarnu a diwygio eu harferion gweithio yn bwrpasol.

Mae gan yr awdurdod set ddatblygedig a thrylwyr o drefniadau ar gyfer dyrannu adnoddau yn unol â'i flaenoriaethau, fel yr amlinellir yn ei Gynllun Corfforaethol.  Yn sgil ei ymrwymiad i addysg, mae wedi dyrannu cyllid ychwanegol mewn cyfnod o ostyngiadau i gyllidebau ar draws meysydd gwasanaeth eraill.  Rhwng 2011 a 2017, darparodd yr awdurdod gyllid i ysgolion uwchlaw lefel amddiffyniad Llywodraeth Cymru.  Yn ystod 2017-2018, mae'r awdurdod yn bwriadu gwario mwy fesul disgybl na chyfartaledd Cymru.  Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi datblygu dull cynhwysfawr a strategol eto o sicrhau cyllid allanol i gefnogi cyflawni ei flaenoriaethau addysgol.

Mae gan yr awdurdod drefniadau effeithiol i adrodd am gynnydd yn erbyn ei wariant cyllideb ac mae'n defnyddio'i system ragweld, monitro ac adrodd i sicrhau rheolaeth gyllidebol gyson ar draws y gwasanaeth addysg ac ysgolion.  Mae rheolwyr busnes a chyllid ysgolion ar sail clwstwr yn darparu data rheolaidd a chynhwysfawr ar gyllid ysgolion i dîm cyllid ysgolion yr awdurdod.  Mae'r data hwn yn galluogi'r tîm i ddeall sefyllfaoedd cyllidebol ysgolion yn fanwl.  Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a ddarperir gan reolwyr busnes a chyllid ar gyfer rheoli eu cyllidebau.

Mae gan yr awdurdod fformiwla cyllid addas a thryloyw, sy'n ystyried y ffactorau perthnasol ar gyfer ysgolion.  Adolygodd Fforwm Cyllideb Ysgolion yr awdurdod y fformiwla cyllid yn drylwyr yn 2013 ac mae'n ei adolygu yn barhaus.  Mae gan yr awdurdod ddull strwythuredig o osod cyllidebau ysgolion dros gyfnod treigl o dair blynedd, gan gynnwys proses her ac ymyrraeth gynhwysfawr a graddol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd â diffyg cynlluniedig yn y gyllideb.  Mae gan yr awdurdod a'r ysgolion ddealltwriaeth ar y cyd o'r rhesymau dros y diffygion hynny.  Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae proses her ac ymyrraeth yr awdurdod wedi dechrau atgyfnerthu'r sefyllfa gyffredinol o ran diffyg ariannol mewn ysgolion.

Er mwyn ymateb yn briodol i'r hinsawdd ariannol sy'n newid, mae'r awdurdod wedi sefydlu ei 'Fwrdd Ail-lunio Cyllideb y Cyngor' yn ddiweddar.  Nod y bwrdd hwn yw darparu dull strategol o nodi arbedion trawsffurfiannol digonol i gefnogi dulliau cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau.  Megis dechrau y mae gwaith y bwrdd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2018